



Datganiad polisi sampl ar recriwtio cyn-droseddwyr

Mae'r Cod Ymarfer a gyhoeddir dan adran 122 o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn cynghori ei bod hi'n ofynnol i bob corff cofrestedig drin ymgeiswyr GDG sydd â chofnod troseddol yn deg a pheidio â gwahaniaethu oherwydd trosedd neu unrhyw wybodaeth arall a ddatgelir. Cewch ragor o wybodaeth isod ynglŷn â newidiadau i ddatgelu gwybodaeth droseddol ar dystysgrifau GDG.

Mae'r Cod yn gofyn hefyd i gyrrff cyhoeddus gael polisi ysgrifenedig ar recriwtio cyn-droseddwyr; gan roi copi ohono i ymgeiswyr GDG ar ddechrau'r broses recriwtio.

I roi cymorth i chi gwrdd â'r gofyniad hwn mae'r GDG wedi cynhyrchu'r datganiad polisi sampl canlynol y gellir ei ddefnyddio neu ei addasu i'r pwrpas hwn.

Gellir cynnwys y datganiad polisi sampl hefyd ym mholisi cyfleoedd cyfartal eich cwmni.

Datganiad polisi sampl

- Fel sefydliad mae asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi sy'n cael eu cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) 1974 drwy wirio cofnodion troseddol a broseswyd drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae [Enw'r Sefydliad], yn cydymffurfio'n llawn â'r [Cod Ymarfer](#) ac yn ymrwmo i drin pob ymgeisydd am swydd yn deg. Mae [Enw'r Sefydliad] yn ymrwmo i beidio â gwahaniaethu yn annheg yn erbyn unrhyw un sydd â cholffarn neu wybodaeth arall a ddatgelir gan wiriad cofnod troseddol.
- Gall [Enw'r Sefydliad] ofyn i unigolyn i gyflwyno manylion collfarnau neu rybuddion y mae [Enw'r Sefydliad] â'r hawl cyfreithlon i wybod amdanynt yn unig. Lle gellir gofyn am dystysgrif GDG safonol neu fanylach yn gyfreithlon (lle mae'r swydd yn un a restrir yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 fel y'i diwygiwyd), a ble bo'n briodol Reoliadau Deddf yr Heddlu (fel y'i diwygiwyd), gall [Enw'r Sefydliad] ofyn i unigolyn am gollfarnau a rhybuddiadau nad ydynt wedi eu diogelu'n unig.
- Mae [Enw'r Sefydliad] wedi ymrwmo i drin ei staff yn deg ac felly hefyd staff arfaethedig neu ddefnyddwyr gwasanaethau'r sefydliad, o ran hil, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, oed, anabledd corfforol/meddyliol neu gefndir o droseddu.
- Mae gan [Enw'r Sefydliad] bolisi ysgrifenedig ar recriwtio cyn-droseddwyr; gan roi copi ohono i holl ymgeiswyr GDG ar ddechrau'r broses recriwtio.
- Mae [Enw'r Sefydliad] yn gyson yn hyrwyddo cydraddoldeb a chyfleoedd i bawb sydd â'r rhinweddau amrywiol addas o dalent, sgiliau a'r gallu, ac yn croesawu ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys rhai sydd â



Disclosure & Barring Service

chofnodion troseddol. Mae [Enw'r Sefydliad] yn dewis o'r holl ymgeiswyr ar sail sgiliau, cymwysterau a phrofiad.

- Cyflwynir cais am wiriad cofnod troseddol i'r GDG yn unig wedi i asesiad risg trylwyr ddangos bod cais o'r fath yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw. Ar gyfer y swyddi hynny lle adnabuwyd bod gwiriad cofnod troseddol yn angenrheidiol, bydd pob ffurflen gais, hysbysebion swydd a phob briff recriwtio'n cynnwys datganiad y cyflwynir cais am dystysgrif GDG pan gynigir y swydd i unigolyn.
- Mae [Enw'r Sefydliad] yn sicrhau bod pawb yn [Enw'r Sefydliad] sydd ynghlwm â'r broses recriwtio wedi eu hyfforddi'n briodol i adnabod ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau. Mae [Enw'r Sefydliad] yn sicrhau hefyd eu bod wedi derbyn y canllaw a'r hyfforddiant priodol yn y ddeddfwriaeth berthnasol ynglŷn â chyflogi cyn-droseddwyr, e.e. Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.
- Mewn cyfweiliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, mae [Enw'r Sefydliad] yn sicrhau y cynhelir trafodaeth agored ac adeiladol ar destun unrhyw drosedd neu fater arall a all fod yn berthnasol i'r swydd. Gallai methu â datgelu gwybodaeth sydd yn uniongyrchol berthnasol i'r swydd yr ymgeisir amdani arwain at dynnu'r cynnig o gyflogaeth yn ôl.
- Mae [Enw'r Sefydliad] yn sicrhau bod pawb sy'n destun cais am wiriad cofnod troseddol i'r GDG yn ymwybodol o fodolaeth y [Cod Ymarfer](#) a bod copi ar gael gan y sefydliad yn ôl y gofyn.
- Mae [Organisation Name] yn ymrwmo i drafod unrhyw fater a ddatgelir ar dystysgrif GDG gyda'r unigolyn sy'n ceisio am y swydd cyn tynnu'r cynnig amodol am gyflogaeth yn ôl.

Rhagor o wybodaeth ynglŷn â gwybodaeth am gollfarnau

Ar 29 Mai 2013 daeth deddfwriaeth¹ i rym sy'n golygu na fydd yn rhaid datgelu rhai hen a mân rybuddiadau a cholffarnau.

- Ar ben hynny ni fydd cyflogwyr yn gallu ystyried rhai hen a mân rybuddiadau a cholffarnau wrth wneud penderfyniadau am unrhyw unigolyn.
- Bydd holl rybuddiadau a cholffarnau am droseddau treisgar a rhywiol difrifol penodedig a throseddau eraill penodedig sy'n berthnasol i swyddi yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion bregus, yn parhau i fod yn destun datgelu. Ar ben hynny, bydd yr holl gollfarnau sy'n arwain at ddeddfryd o garchar, yn ohiriedig neu beidio, yn parhau i fod yn destun datgelu, ac felly hefyd unrhyw gollfarn lle gwelir bod gan unigolyn fwy nag un collfarn wedi ei chofnodi.
- Gallwch gyfeirio ymgeiswyr hefyd i'r canllaw a'r meini prawf ar ein gwefan sy'n egluro'r gwaith o [hidlo hen a mân rybuddiadau a cholffarnau](#) sydd bellach wedi eu 'diogelu' ac nid felly'n destun datgelu i gyflogwyr.

¹ Gweler Gorchymyn 1975 (Eithriadau) Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 Gorchymyn (Diwygiad) (Cymru a Lloegr) 2013; a Deddf yr Heddlu 1997 (Tystysgrifau Cofnodion Troseddol: Materion Perthnasol) Gorchymyn (Diwygiad) (Cymru a Lloegr) 2013.